CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Adroddiad Gwrthwynebu

## yn ymwneud a'r cynnig i uno

## Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin

## Mochdre, Conwy

## Ionawr 2024

| | |
|---|---|
| 1 | Hysbysiad Statudol |
| 1.1 | Cyhoeddi’r Hysbysiad Statudol |
| 2 | Gwrthwynebiadau |
| 3 | Ymateb yr Awdurdod i’r gwrthwynebiadau / sylwadau |
| 4 | Adborth ESTYN |
| 5 | Penderfyniad y Cabinet |
| 6 | Ymateb yr Undeb Addysg Cenedlaethol |

**This document is also available in English.**

## 1. Hysbysiad Statudol

### 1.1 Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Ar 7 Tachwedd 2023, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet (10 Hydref 2023) cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Hysbysiad Cau, yn datgan bwriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg gymysg i blant rhwng 3 - 11 oed i'w chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar safleoedd presennol Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin, o 1 Medi 2024.

O ganlyniad i'r cynigion a amlinellwyd byddai Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin yn cau ar 31 Awst 2024.

Roedd hyn yn cychwyn gyfnod hysbysu 28 diwrnod yn rhoi cyfle i unrhyw fudd-ddeiliaid cysylltiedig gyflwyno eu barn am y cynnig.

Dechreuodd y cyfnod hysbysu ar 7 Tachwedd 2023 a daeth i ben ar 5 Rhagfyr 2023.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n manylu ar y camau y mae'n rhaid eu cymryd fel rhan o'r broses.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y Cyfnod Hysbysu, yn cyfeirio at yr ymatebion a dderbyniwyd, ac yn anelu at ateb a mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod.

Dosbarthodd Conwy gopïau o'r Hysbysiad Statudol drwy ddolen e-bost a oedd yn rhoi manylion ynglŷn â sut i wneud unrhyw sylwadau ar y cynnig. Gosodwyd yr Hysbysiad Statudol ar gatiau Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin a chafodd hefyd ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghyd â'r holl ddogfennau eraill yn ymwneud â'r Cynnig.

Hefyd anfonwyd nodyn atgoffa ar e-bost ar 27 Tachwedd yn atgoffa budd-ddeiliaid o'r dyddiad cau ar gyfer unrhyw sylwadau/gwrthwynebiadau.

Yn y tabl isod ceir rhestr o'r rhai a dderbyniodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

| Enw/Sefydliad |
|---|
| Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, athrawon a staff Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin. |
| Llywodraethwyr Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin |
| Penaethiaid Ysgol Pen y Bryn, Ysgol Llandrillo yn Rhos ac Ysgol Awel y Mynydd. |
| Esgobaeth Llanelwy Yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig Rufeinig Wrecsam |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd |
| Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru |
| Adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru |
| Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli ardal y cynigion |
| Cynghorydd Lleol Conwy dros Fochdre |
| CYNGOR CYMUNED MOCHDRE |
| Estyn |
| Undebau Llafur Athrawon a Staff |
| GwE |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy |
| Cymunedau yn Gyntaf Conwy. |
| Dechrau'n Deg Conwy |

## 2. Gwrthwynebiadau

O dan adran 49 o Ddeddf 2013, pan fo gwrthwynebiadau wedi dod i law, rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu"). Rhaid gwneud hyn:

(a) yn achos awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo benderfynu ar ei gynigion ei hun o dan adran 53 y Ddeddf, cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad: ac

(b) ym mhob achos arall, cyn diwedd 28 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y mae'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben.

Dechreuodd y cyfnod hysbysu ar 7 Tachwedd 2023 a daeth i ben ar 5 Rhagfyr 2023.

Cafwyd cyfanswm o 1 ymateb i'r cynnig ar e-bost gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol.

Ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy'r post na thrwy'r ffurflen ar-lein.

Ymwelwyd â gwe-dudalen yr Hysbysiad Statudol ar wefan Conwy 42 gwaith gan 34 o ymwelwyr unigol rhwng 7 Tachwedd 2023 a 5 Rhagfyr 2023.

Cafwyd ymateb gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol yn datgan:

*”Er nad oes gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol mewn egwyddor wrthwynebiad i uno’r ysgolion, mae gennym bryderon ynghylch rhai o’r datganiadau yn y ddogfen ymgynghori ac am yr effeithiau y bydd yn ei gael ar staffio a safonau addysgol”.*

Mae Conwy wedi paratoi ymatebion sydd i’w gweld yn adran 3 o’r adroddiad

Mae ymateb yr Undeb Addysg Cenedlaethol wedi’i gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn o dan bwynt 6.

**3. Ymateb yr Awdurdod i’r gwrthwynebiadau / sylwadau**

Mae’r sylwadau a dderbyniwyd wedi’u dangos yn y tabl canlynol, ynghyd ag ymateb Conwy iddynt. Cwestiynau gwreiddio y tu allan i gyfnod yr Hysbysiad Statudol mewn du, ateb CBSC mewn coch. Gwrthwynebiadau / sylwadau pellach gan Undebau (o fewn cyfnod yr Hysbysiad Statudol) mewn glas

| Gwrthwynebiad / Sylwadau | Ymateb yr Awdurdod |
|---|---|
| Parhad addysg a’r cwricwlwm i ddisgyblion, pontio o’r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, lleihau gostyngiadau ym mherfformiad disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o un cyfnod addysgol i’r llall.<br>Mae’r Undeb yn cwestiynu’r dystiolaeth y tu ôl i’r datganiad hwn | Yn ôl adroddiadau diweddar Estyn mae “Diwygio’r Cwricwlwm ar gam cynnar iawn” yn y ddwy ysgol, mae hon yn agwedd sy’n cael sylw ar draws y camau cynnydd sy’n gofyn am gydweithio rhagorol ac effeithiol - bydd modd mynd i’r afael â hyn yn fwy effeithiol fel un ysgol gan hwyluso pontio a sicrhau trosglwyddiad llyfnach lle mae’r cwricwlwm yn llifo’n effeithiol ar draws y camau cynnydd. |
| Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Cynyddu sgiliau staff ar draws y ddwy ysgol a sicrhau bod cynllunio’r cwricwlwm a rhannu adnoddau yn codi safonau a deilliannau disgyblion.<br>Mae’r Undeb yn cwestiynu’r dystiolaeth y tu ôl i’r datganiad hwn | Mae’r dystiolaeth berthnasol i’w gweld yn adroddiadau diweddar Estyn ar yr ysgolion, lle cyfeirir at y ffaith nad yw cwricwlwm yr ysgolion wedi’i ddatblygu’n ddigonol (gw.uchod).<br>Mae’r adroddiad hefyd yn nodi: “yn gyffredinol nid yw cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff yn cael eu cynllunio’n ddigon strategol ac nid ydynt yn canolbwyntio’n ddigon da ar wella ansawdd yr addysgu.” Mae hwn yn faes sydd eisoes wedi dechrau cael sylw drwy rwydweithio ysgol gyfan a chysylltu ag ysgolion eraill i ddatblygu sgiliau o dan arweinyddiaeth strategol Pennaeth Gweithredol sy’n gweithio’n agos â’r ysgolion ar bob agwedd o argymhellion Estyn. |
| Goblygiadau staffio, adleoliad staff posibl a/neu ddiswyddiadau.<br>Mae gan yr Undeb bryderon nad oedd yn glir ar y cam ymgynghori faint o gyllid fyddai’r ysgol newydd yn ei gael o gymharu â’r ddwy ysgol flaenorol. Yn sicr os yw’r toriadau i’r gyllideb a ddangoswyd yn y dogfennau i’r Cabinet yn wir, bydd hyn yn arwain at dorri | Er y deellir bod goblygiadau ariannol a thoriadau posibl i’r gyllideb yn ystyriaethau arwyddocaol, mae’n bwysig nodi mai nod ymgynghoriadau yw ceisio amrywiaeth eang o safbwyntiau er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy’n seiliedig ar wybodaeth gadarn. Cyhoeddwyd |

| | |
|---|---|
| swyddi a bydd yn cael effaith ar safonau addysgol. | manylion ynghylch goblygiadau ariannol y cynnig yn yr Ymgynghoriad. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ac ar-lein cyn cyhoeddiad yr Hysbysiad Statudol.<br><br>Mae cyfnod yr Hysbysiad Statudol yn caniatáu i unrhyw un wneud cwyn ffurfiol yn erbyn y cynigion am unrhyw reswm<br><br>Mae Conwy wedi ymrwymo i sicrhau bod addysg ar gyfer Mochdre yn cael ei chynllunio a'i rheoli'n briodol ac yn effeithiol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. |
| O ran yr effaith ar staffio, os cyfunir y ddwy ysgol bydd y Corff Llywodraethu Dros dro yn gweithio gyda'r Pennaeth ac mewn cysylltiad â swyddogion Adnoddau Dynol Addysg i sefydlu'r strwythur staffio ar gyfer yr ysgol newydd. Bydd y cynigion hyn yn rhoi mwy o gyfle i staff ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm cynradd cyfan a photensial ar gyfer strwythurau staffio a rheoli mwy arbenigol yn yr ysgol 3 - 11. Mae'r Undeb yn cwestiynu'r dystiolaeth y tu ôl i'r datganiad hw., Mae'r Undeb yn bryderus y bydd gostyngiad yn y gyllideb yn cael cael effaith i'r gwrthwyneb gan leihau cyfleoedd ar gyfer datblygiad staff. | Mae nifer o'r buddion a restrir hefyd yn rhai a welir o ffedereiddo a gellir eu gweld yn adroddiad Llywodraeth Cymru - *Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru*<br><br>Tra bo toriadau i gyllidebau yn heriol i bob ysgol, gall ymdriniaethau strategol a rhagweithiol, archwilio opsiynau cost effeithiol a hyrwyddo diwylliant o gyd-ddysgu helpu i gynnal a gwella cyfleoedd datblygu i staff. |
| Byddai uno yn adeiladu ar y gwaith y mae'r pennaeth, y staff a'r cyrff llywodraethu eisoes wedi'i ddechrau er mwyn gwella safonau ysgolion ymhellach. Byddai'n haws adeiladu ar y gwaith da hwn; byddai cydweithio'n darparu'r manteision posibl canlynol ar gyfer safonau disgyblion, gwell darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth:<br>.<br>Mae datganiad yr Awdurdod Lleol i'w weld yn nodi bod gwaith da'n cael ei wneud yn yr ysgol. Os felly, pam bod yr ysgol wedi'i rhoi mewn yn y categori 'gweithgarwch dilynol?. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y pennaeth, staff a chyrff llywodraethu eisoes wedi **<u>dechrau gweithio'n</u>** fwy agos er mwyn gwella safonau yn yr ysgolion.<br><br>Fodd bynnag, bydd ysgolion yn gweithio'n agos â'r holl bartneriaid i barhau i wella safonau a byddai'n deg disgwyl bod gwaith yn cael ei wneud ar draws y ddwy ysgol i fynd i'r afael ag argymhellion Estyn sydd union yr un fath ar gyfer y ddwy, gan alw felly am bartneriaethau cadarnhaol, agos a chydweithredol er mwyn gwneud cynnydd. |
| Mae'r Undeb yn bryderus hyd yn oed gyda chyllid pontio y bydd y gyllideb yn llai gyda hynny'n arwain yn anorfod ar ostyngiad mewn staff. Unwaith y | Wedi adolygu'r cyllid a fydd ar gael ar ôl cyfuno'r ysgolion, gofynnodd Swyddogion Addysg i'r Cabinet adolygu'r model ariannu presennol a |

| | |
|---|---|
| byddai'r cymorth pontio wedi dod i ben byddai'r gostyngiad yn sylweddol ac yn ein barn ni byddai'n arwain at ostyngiadau staffio. Pe bai'r ysgol ar un safle ni fyddai gennym yr un pryderon, fodd bynnag oherwydd y bydd yr ysgol hon ar ddwy safle bydd angen cyllid ychwanegol. | gytunwyd ym mis Awst 2013 gan gydnabod nad oes modd gwireddu manteision ariannol un ysgol ar un safle, i fynd i'r afael a'r effaith bosibl ar yr ysgolion yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.<br>Byddai'r newidiadau arfaethedig, os bydd y Cabinet yn cytuno, yn rhoi cyfnod hirach o amddiffyniad yn ystod pontio er mwyn helpu'r ysgolion. |
| Yn ychwanegol, mae'r Undeb yn bryderus ynglŷn â'r canlynol, sef ymatebion a dderbyniom ynglŷn â'r cynnig i uno'r ysgolion | |
| Pam na wnaed y ffigyrau hyn yn glir yn ystod yr ymgynghoriad? Pe bai'r ffigyrau hyn ar gael mae'n bosibl iawn y byddai hynny wedi dylanwadu ar yr ymatebion. Nid yw'n dderbyniol nad oedd y ffigyrau hyn ar gael yn ystod yr ymgynghoriad,<br>Wrth uno ysgolion mae diwygiadau i gyllid yn ystyriaeth ac yn rhywbeth yr ydym yn gweithio'n agos â'r ysgol â'r llywodraethwyr arno.<br>Nid oedd yr amcangyfrif o'r dyraniad cyllid ar gyfer yr ysgol newydd ar gael i ni yn ystod y broses ymgynghori ond roedd y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at agweddau ariannol y cynnig, gan gydnabod eu pwysigrwydd yng nghyd-destun yr uno arfaethedig a chrybwyllwyd y ffaith y byddai gostyngiad yn y dyraniad, heb roi'r union ffigyrau.<br>Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, nid yw ymatebion a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau ffurfiol. Er mwyn i ymatebion gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol mae'n rhaid eu cyflwyno yn ysgrifenedig neu drwy e-bost o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.<br>Bydd y cyfnod hysbysu statudol (a Gwrthwynebu) yn dechrau os bydd y à'r broses uno ar ôl eu cyfarfod ym mis Hydref. Bydd cyfnod yr Hysbysiad Statudol yn rhedeg am 28 diwrnod o ddyddiad ei gyhoeddi ac yn caniatáu i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol i'r cynnig. Bydd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniad ar y cynnig ar ddiwedd y cyfnod hwn. Bydd Adroddiad Gwrthwynebu'n cael ei gyhoeddi fel rhan o'r broses hon. | Wedi adolygu'r cyllid a fydd ar gael ar ôl cyfuno'r ysgolion, gofynnodd Swyddogion Addysg i'r Cabinet adolygu'r model ariannu presennol a gytunwyd ym mis Awst 2013 gan gydnabod nad oes modd gwireddu manteision ariannol un ysgol ar un safle, i fynd i'r afael a'r effaith bosibl ar yr ysgolion yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.<br><br>Byddai'r newidiadau arfaethedig, os bydd y Cabinet yn cytuno, yn rhoi cyfnod hirach amddiffyniad wrth bontio er mwyn helpu'r ysgolion. |

| | |
|---|---|
| Rhaid cwestiynu doethineb symud ymlaen ag ymgynghoriad heb wybod yr union ganlyniadau ariannol. | |
| Sut fydd yr ysgol newydd yn rheoli'r gostyngiad i'r gyllideb? Fel Undeb nid ydym yn teimlo ei bod yn deg rhoi'r cyfrifoldeb ar yr ysgol gan mai'r Awdurdod Lleol sydd wedi penderfynu ar yr uno.<br>Cyfrifoldeb yr ysgolion a'u cyrff llywodraethu yw rheoli eu cyllidebau eu hunain, fodd bynnag pan fo uno ysgolion yn digwydd rydym yn cysylltu â'r ysgol newydd a'i chorff llywodraethu i drafod, cynorthwyo a rhoi cyngor ar yr opsiynau yr hoffai'r ysgol o bosibl eu trafod.<br>Mae'r Undeb yn bryderus y gallai'r gostyngiad yn y gyllideb ei gwneud yn anodd i'r Corff Llywodraethu gadw'r un lefel o staffio ac o'r herwydd gynnal safonau addysgol. | Fel y soniwyd eisoes, cyfrifoldeb ysgolion unigol a'u cyrff llywodraethu yw rheoli eu cyllidebau.<br><br>Mae Conwy wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r ysgol a'r chorff llywodraethu yn y broses hon i drafod, cynorthwyo a rhoi cyngor ar yr opsiynau y gallai'r ysgol o bosibl fod eisiau eu hystyried oherwydd newidiadau i gyllidebau a hefyd fel y soniwyd uchod, gofynnwyd i'r Cabinet adolygu'r trefniadau amddiffyn wrth bontio cyfredol. |
| Faint fydd nifer yr athrawon Cyfwerth ag Amser Llawn yn yr ysgol newydd o gymharu â'r ysgolion unigol?<br>Y fformiwla CALl presennol yw: Babanod Mochdre 2.2 ac Ysgol Cystennin 2.62 = 4.82<br>Uno - 1 Ysgol = 4.24 CALl, felly gostyngiad o .58 CALl<br>Yr ysgol wedi'i staffio dros y lefelau cyllido presennol ar 7.2 CALl.<br>Dylai'r Cynghorwyr fod yn ymwybodol y bydd yr uno'n arwain at staffio CALl o 4.24 ar draws y ddau safle. Gofynnwn i'r Awdurdod Lleol ddangos sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol a pha effaith y gallai ei gael ar ddarpariaeth addysg yn yr ysgol. | Rôl arweinwyr yr ysgol yw trefniadaeth ysgol gyfan, strategaeth a datblygiad gan ddarparu arweinyddiaeth strategol cyffredinol a, gydag eraill, arwain, datblygu a chefnogi cyfeiriad strategol, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol<br><br>Mae sawl ffordd i'r Awdurdod Lleol ddangos yr effeithiau cadarnhaol a ddaw yn sgil uno'r ysgolion.<br>• Yn ogystal â ffocws yr arolwg diweddar rhagwelir y bydd y broses ôl-arolwg yn gwella darpariaeth academaidd, canlyniadau a chyraeddiadau a bydd hyn yn dod yn fwy amlwg dros amser wrth i'r broses fynd yn ei blaen.<br>• Gwneud y mwyaf o adnoddau e.e. rhannu cyfleusterau, ardal o arbenigedd dysgu a thechnoleg, gallu rhoi sylw ehangach i'r cwricwlwm a gweithgareddau oherwydd adnoddau cyfunol yr ysgol<br>• Disgyblion yn gwneud gwell cynnydd ac yn cael gwell |

| | |
|---|---|
| | cefnogaeth oherwydd cydweithio gwell rhwng athrawon a staff cymorth.<br>• Mwy o ymgysylltiad cymunedol drwy fentrau a digwyddiadau ar y cyd wedi'u hwyluso drwy gyfuno'r ysgolion.<br>• Posibilrwydd y bydd galwadau gweinyddol yn cael eu symleiddio gan gyfrannu at reolaeth effeithiol yr ysgol.<br>• Potensial i wella ac uwchraddio cyfleusterau gan ddarparu gwell amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion a chydweithwyr.<br><br>Yr uchod yw dim ond rhai o'r elfennau y byddai'r Awdurdod Lleol yn hoffi gallu eu dangos dros amser.<br><br>Hefyd, fel y soniwyd eisoes, bydd amddiffyniad wrth bontio yn ei le i gydnabod na fydd yn bosibl darparu manteision model staffio cyfunol ar unwaith ac i liniaru' yn erbyn hyn wrth i'r ysgol wneud gwaith i sefydlu'r strwythur diwygiedig |
| Beth fydd yr effeithiau ar safonau addysgol yr ysgol gyfunol yn dilyn y gostyngiad cyffredinol i'r gyllideb? (Mae hyn wedi'i nodi fel 'Arbedion' yn adroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) O safbwynt hyn, byddem yn edrych ar unrhyw dystiolaeth yr ydych wedi'i rhoi i gefnogi eich safbwyntiau.<br>Fel yr ydym bob amser yn ei wneud yng Nghonwy, rydym yn gweithio'n agos â'n hysgolion i sicrhau bod safonau addysgol yn aros yn uchel ac yn cael eu cynnal yn ystod unrhyw aildrefnu ysgolion.<br>Mae'r Undeb yn cwestiynu sut y gall yr Awdurdod Lleol fod yn hyderus y bydd safonau addysgol yn aros yn uchel?<br>Mae'r Undeb yn cwestiynu a yw ymarferion uno ysgolion blaenorol wedi arwain at gynnal safonau addysgol uchel? | Hoffai'r Awdurdod Lleol ymateb drwy ddweud fod pob sefyllfa yn wahanol ac y bydd profiad o uno ysgolion yn y gorffennol yn wahanol i brofiadau uno'r dyfodol.<br>Mae arweinyddiaeth fedrus a'r gallu i ymdrin â pherthnasoedd personol yn llwyddiannus yn ffactor allweddol mewn ymarferion uno llwyddiannus.<br><br>Mae cyfathrebu'n hollbwysig a bydd yr Awdurdod Lleol a'r Consortia Rhanbarthol sy'n eu cefnogi'n gweithio'n agos â'r ysgolion i barhau i weithio tuag at fynd i'r afael ag argymhellion Estyn i wella cynnydd disgyblion a chynnal safonau addysgol wedi hynny. |

### 4. Adborth ESTYN

Ni chafwyd unrhyw adborth gan ESTYN ar y cam hwn ond fe wnaethant ymateb yn ystod yr ymgynghoriad gwreiddiol i ddweud “Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol, o leiaf, o gynnal safon y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.”

Gellir gweld ymateb llawn ESTYN ar y cam ymgynghori ar y we-dudalen ganlynol:https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Education-and-Families/Education-Consultations/Proposal-to-amalgamate-Ysgol-Babanod-Mochdre-and-Ysgol-Cystennin.aspx

**5. Penderfyniad y Cabinet**

Cafodd Aelodau Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfarfod ar 10 Hydref 2023 i drafod y cynnig i uno Ysgol Babanod Mochdre ac ysgol Cystennin gan roi cymeradwyaeth i gyhoeddi’r Hysbysiad Statudol yn ffurfiol (i uno Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin)/

Roedd hyn yn cychwyn gyfnod hysbysu 28 diwrnod a oedd yn rhoi cyfle i unrhyw fudd-ddeiliaid cysylltiedig gyflwyno eu barn am y cynnig.

Dechreuodd y cyfnod hysbysu ar 7 Tachwedd 2023 daeth i ben ar 5 Rhagfyr 2023.

Bydd Cabinet Conwy yn gwneud penderfyniad ffurfiol ynghylch uno Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Mochdre ar 23 Ionawr 2024